## Cynllun Prynu Cartref Ynys Môn

### Trosolwg

Mae'r Cynllun Prynu Cartref Ynys Môn hwn, a gynigir gan Gyngor Sir Ynys Môn, yn darparu cymorth ariannol i unigolion nad ydynt yn gallu fforddio talu pris llawn am gartref ar y farchnad agored heb gymorth.

Mae'r cynllun ar gael i

- brynwyr tro cyntaf lleol sy'n ei chael hi'n anodd prynu eu heiddo cyntaf
- pobl sydd wedi bod yn berchen ar eiddo yn y gorffennol ond nad ydynt yn berchen ar gartref ar hyn o bryd
- perchnogion rhannu ecwiti presennol

Mae'r cynllun yn un drwy ddisgresiwn ac yn un sy'n amodol ar y cyllid sydd ar gael.

### Sut mae'n gweithio?

Os ydych chi'n dymuno prynu cartref ond nad ydych yn gallu cael morgais digonol er mwyn gallu prynu ar y farchnad agored, efallai y gallai'r Cyngor eich helpu gyda benthyciad ecwiti a fyddai'n eich galluogi i'w brynu heb orfod ariannu'r gost yn llawn. Byddai'r tŷ wedyn yn eiddo rhannu ecwiti.

Bydd angen i chi gael blaendal sydd o leiaf 5% er mwyn cael mynediad i'r cynllun.

Bydd gennych 'deitl cyflawn' ar eich eiddo a'ch enw chi fydd ar y gweithredoedd. Bydd benthyciad ecwiti'r Cyngor yn cael ei ddiogelu drwy ail gost cyfreithiol ar yr eiddo, yn dilyn y morgais sy'n dod gyntaf, er mwyn gwneud yn siŵr bod cyfran y Cyngor yn cael ei ddiogelu.

Os byddwch yn gwerthu'r eiddo, byddwch yn ad-dalu cyfran ecwiti'r Cyngor. Bydd y Cyngor angen prisio'r eiddo a bydd hefyd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw welliannau sydd wedi eu gwneud i'r eiddo. Bydd y Cyngor yn hysbysu Tai Teg i ymweld â'ch eiddo er mwyn ei brisio gan brisiwr RICS a byddwch chi, fel y gwerthwr, yn talu'r ffi prisio. Ar ôl derbyn gwerth yr eiddo, bydd y Cyngor yn gallu cadarnhau'r swm y bydd angen i chi ei ad-dalu. Er enghraifft, os gwnaethoch chi dderbyn 30% o fenthyciad ecwiti byddai angen i chi ad-dalu gwerth 30% o werth yr eiddo wrth ei werthu.

### Enghraifft o pan fydd gwerth eiddo yn cynyddu

| | |
|---|---|
| Pris Prynu a Gwerth Prisio Gwreiddiol | £160,000 |
| Eich Rhan Chi (70%) | £112,000 |
| Rhan ecwiti y Cyngor (30%) | £ 48,000 |
| Pris Gwerthu | £180,000 |
| Byddwch chi'n derbyn 70% | £126,000 |
| Bydd y Cyngor yn derbyn 30% | £ 54,000 |
| Yn yr enghraifft hon mae gwerth eich rhan chi wedi cynyddu o £112,000 i £126,000 | |

### Enghraifft o pan fydd gwerth eiddo yn gostwng

| | |
|---|---|
| Pris Prynu a Gwerth Prisio Gwreiddiol | £160,000 |
| Eich Rhan Chi (70%) | £112,000 |
| Rhan ecwiti y Cyngor (30%) | £ 48,000 |
| Pris Gwerthu | £150,000 |
| Byddwch chi'n derbyn 70% | £105,000 |

| | |
|---|---|
| Bydd y Cyngor yn derbyn 30% | £ 45,000 |
| Yn yr enghraifft hon mae gwerth eich rhan chi wedi gostwng o £112,000 i £105,000 | |

**Faint o gymorth sydd ar gael?**

- Uchafswm y cymorth ariannol a ddarperir gan y Cyngor fydd 30% o werth yr eiddo cymwys. Mae hyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o £75,000 oni bai y cytunir fel arall.
- Uchafswm pris prynu'r eiddo fydd £250,000

**A fyddaf yn gymwys?**

- Rhaid i'r holl ddarpar brynwyr fod wedi eu cofrestru a'u cymeradwyo gan Tai Teg. Mae am ddim i gofrestru ac mae manylion pellach am y broses ar gael drwy (hiips://taiteg.org.uk/cy/register)
- Rhaid i ymgeiswyr fod dros 18 oed.
- Rhaid i ymgeiswyr fod mewn gwaith neu'n hunangyflogedig.
- Rhaid i incwm gros yr aelwyd fod rhwng £16,000 a £60,000
- Bydd yn rhaid i ymgeiswyr gael mynediad i forgais neu fod â digon o gynilion ond eu bod yn methu â fforddio prynu eiddo o faint addas i faint eu teulu ar y farchnad agored.
- Rhaid i'r aelwyd allu codi o leiaf 5% o flaendal ar werth yr eiddo y byddant yn berchen arno ac yn gallu cael morgais ar y rhan y byddant yn ei brynu.

**Cyfrifoldebau**

Pan fyddwch yn prynu drwy Gynllun Prynu Cartref Ynys Môn bydd gennych 'deitl llawn' ar eich cartref. Mae hyn yn golygu fod gennych yr un cyfrifoldebau â phob perchennog cartref. Chi fydd yn gyfrifol am:

- dalu eich morgais
- yswiriant cynnwys y cartref
- yswiriant adeilad
- gwaith trwsio a chynnal a chadw
- treth cyngor
- biliau gwres, trydan a dŵr
- dodrefn a chynnwys

**Sut bydd ymgeiswyr yn cael eu blaenoriaethu?**

**Blaenoriaeth 1** Ymgeiswyr sydd wedi byw yn ardal y Cyngor Tref / Cymuned lle mae'r eiddo wedi'i leoli am 5 mlynedd neu fwy.

**Blaenoriaeth 2** Ymgeiswyr sydd wedi byw am 5 mlynedd neu fwy yn un o ardaloedd y Cyngor Tref / Cymuned cyfagos i ardal y Cyngor Tref / Cymuned lle mae'r eiddo wedi'i leoli.

**Blaenoriaeth 3** Ymgeiswyr sydd wedi byw neu weithio yn Ynys Môn am gyfnod o bum mlynedd.

**Fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor ariannol a chyfreithiol annibynnol cyn cytuno i fod yn rhan o'r cynllun.**

**Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Tai Teg (www.taiteg.org.uk) ac mae copi o Bolisi Rhannu Ecwiti y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor (www.ynysmon.llyw.cymru)**